# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Neuadd Galltfaenan**

**Neuadd Galltfaenan**
**Trefnant**
**Dinbych**
**LL16 5AG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

08/10/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Neuadd Galltfaenan

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | GALLTFAENAN HALL LTD |
| Lleoedd cofrestredig | 32 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 16 Chwefror 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn hapus ac wedi setlo. Gwnaethant ddweud, *"I've lived here for years, it's my home. I like all the other residents and staff"* ac *"I am happy and I have lots of friends".* Mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r bobl y maent yn byw gyda nhw, yn aros mewn cysylltiad â'u teuluoedd ac yn meithrin cydberthnasau newydd. Maent yn cael gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gan y staff sy'n eu hadnabod yn dda ac yn diwallu eu hanghenion unigol a chymhleth. Mae'r bobl yn dilyn eu diddordebau, gallant gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau a chânt gyfleoedd i weithio, i wirfoddoli a mynd i'r coleg.

Mae yna dîm o staff medrus, ymrwymedig a hirsefydledig. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi ac yn ystyried eu dysgu a'u datblygiad yn dda neu'n ardderchog. Dywedodd y staff, *"We are a great team; we always support each other"* a "*Managers are very supportive and staff can come to them when needed".*

Mae'r gwasanaeth yn cael ei reoli a'i arwain yn gyson dda a chaiff diwylliant cadarnhaol ei hybu. Mae'r Unigolyn Cyfrifol newydd yn frwdfrydig am wneud gwelliannau i'r gwasanaeth gan weithio'n agos gyda'r rheolwr. Bydd yn cyflawni ei hymweliadau a'i hadroddiadau ar yr adolygiad o ansawdd y gofal yn unol â'r rheoliadau.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth gadarn dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Gwrandewir arnynt, cânt eu cynnwys a chynhelir cyfarfodydd i breswylwyr godi unrhyw faterion. Mae hyfforddiant y staff yn cynnwys trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid, galluedd meddyliol, a hawliau dynol i sicrhau eu bod yn deall ac yn cefnogi'r bobl yn effeithiol. Caiff y Gymraeg ei hyrwyddo ac mae pob aelod o'r staff wedi dysgu rhywfaint o Gymraeg er mwyn gallu siarad â'r bobl sy'n byw yno. Gall y bobl gael gafael ar eiriolwyr, gan gynnwys eiriolwr sy'n siarad Cymraeg. Dywedodd y gweithiwr personol, *"They follow a person-centred care planning approach to the individual's care and support needs. So, the person has choice and control in their everyday lives".*

Mae anghenion corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol y bobl yn cael eu diwallu'n gyson. Caiff gwybodaeth am iechyd ei chofnodi ar gyfer apwyntiadau, gwiriadau, ymweliadau a phwy i gysylltu â nhw os bydd anghenion y bobl yn newid. Cwblheir pasbortau ysbyty rhag ofn y bydd angen iddynt fynd i'r ysbyty. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod wedi siarad â rhai o'r bobl sydd â diddordeb mewn cwblhau hyfforddiant ar eu diagnosis eu hunain. Mae'r staff yn annog ffyrdd mwy iach o fwy ac ymarfer corff megis nofio, teithiau cerdded llesiant, beicio a mynd i'r gampfa.

Mae'r bobl yn penderfynu beth yr hoffent ei wneud. Dywedodd y staff, *"The residents are well cared for and are offered a huge range of activities"* a *"The residents have plenty of activities to do during the week and on the weekends".* Mae gweithgareddau yn cynnwys gemau, crefftau, sesiynau canu, pobi ac mae diddanwyr yn ymweld â'r gwasanaeth bob mis. Mae gweithgareddau'r nos yn cynnwys discos, gwylio ffilmiau â byrbrydau, prynu tecawês ac ymweld â thafarn y pentref. Mae'r bobl yn mwynhau teithiau allan i'r theatr, y sinema ac yn mynd i wyliau, galas a digwyddiadau cymunedol. Dywedodd y gweithwyr proffesiynol wrthym fod y bobl yn cael cymorth i *"Maintain their links within the community, hobbies/interests. Which is an important factor with the emotional wellbeing of the person".* Mae'r bobl yn cyflawni eu nodau a dywedodd y gweithwyr proffesiynol wrthym, *"Person-centred thinking is used towards the individual's personal goals so their outcomes can be met".*

Mae'r bobl yn cael budd o'r cydberthnasau cadarnhaol â'i gilydd a gyda'u teuluoedd, a chaiff ymweliadau eu hwyluso gan y staff i sicrhau cysylltiad rheolaidd. Dywedodd y bobl, *"Staff take me home to visit my parents"* a *"My sister is allowed to visit me at any time".*

Mae'r bobl yn ddiogel rhag niwed. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar ddiogelu ac mae polisi ar waith iddynt ei ddilyn. Gall y bobl godi pryderon a gofynnir iddynt am eu barn er mwyn gwneud newidiadau. Caiff asesiadau eu cwblhau i nodi a lleihau unrhyw risgiau.

## Gofal a Chymorth

Mae'r cynlluniau personol yn darparu gwybodaeth fanwl am anghenion y bobl. Mae'r bobl yn ymwybodol o'u hawliau ac yn cael eu cynnwys yn eu hadolygiadau ac yn gwneud newidiadau yn eu bywydau. Dywedodd y gweithwyr proffesiynol wrthym eu bod yn *"Involving the individual and families at the centre of their care planning".* Gwnaethant hefyd ddweud, *"The reviews and assessments provided all the relevant information and were regular*[ly] *updated to reflect any new changes".*

Mae ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir i'r bobl yn gyson dda a chaiff eu dymuniadau personol eu hystyried. Dywedodd y staff wrthym, *"The staff are friendly and take care of the residents well" a "The residents are looked after really well and treated with respect".* Dywedodd y perthnasau wrthym, *"My general views for Galltfaenan Hall are fantastic, all the carers go above and beyond for my brother and the other residents".* Mae sylwadau eraill yn cynnwys, *"Galltfaenan Hall in my opinion is outstanding, excellent and brilliant"* a *"First time in my life I can sleep"*, gan wybod eu bod yn cael gofal da. Mae cynlluniau yn cynnwys gwybodaeth bwysig am hoff bethau a chas bethau'r bobl, eu dewisiadau personol gan gynnwys iaith, cydberthnasau ac unrhyw ofynion deietegol penodol. Caiff credoau crefyddol eu cofnodi a gall y bobl fynd i wasanaethau eglwys gwahanol ar ddydd Sul. Dywedodd y bobl, *"I like the food and helping in the kitchen", "The staff help me to go out into town to go to the shops and out for meals"* a *"The staff take me out, wherever I want to go".* Dywedodd un perthynas wrthym ers iddo symud i mewn, mae wedi *"Changed him completely".*

Mae'r rheolwr a'r staff yn chwilio am brofiadau newydd i'r bobl a chaiff risgiau cadarnhaol eu hannog i'w cymryd. Mae sgiliau, hyder, hunan-hyder ac ymdeimlad y bobl o berthyn wedi cynyddu. Maent yn gwneud cynlluniau i fynd ar wyliau i lefydd newydd, i roi cynnig ar wahanol gyrsiau, i ymuno â grwpiau cymdeithasol a dod o hyd i waith. Gallant hefyd ddysgu i chwarae offerynnau cerddorol, i ganu a pherfformio o flaen cynulleidfa. Dywedodd y gweithwyr proffesiynol, *"I have always been super impressed with the service of Galltfaenan Hall. They have always gone the extra mile to think outside the box with regard to quality of life and community access".*

Mae'r gwasanaeth yn hybu arferion hylan ac yn rheoli'r risg o haint. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar reoli heintiau, yn cwblhau asesiadau cymhwysedd ac yn gallu cael gafael ar gyfarpar diogelu personol. Mae polisi rheoli heintiau ac archwiliadau yn nodi unrhyw faterion. Mae'r rheolwr wedi cwblhau hyfforddiant ac mae'n hyrwyddwr atal heintiau. Dywedodd y perthnasau wrthym fod y *"Place is always spotlessly clean".*

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n diwallu eu hanghenion ac mae gwelliannau yn mynd rhagddynt. Dywedodd y bobl, *"It is homely, it is the best place I have lived in, it's a home and not a hospital".* Mae'r ystafelloedd yn fawr gyda llawer o olau naturiol ac maent wedi'u personoli i adlewyrchu chwaeth a diddordebau'r bobl. Dywedodd y bobl, *"I am happy with my room".* Mae ganddynt ddigon o le i gymdeithasu yn yr ystafell fwyta a dwy lolfa sy'n cynnwys bwrdd pŵl, bwrdd tenis a phiano. Mae'r staff wedi creu salon trin gwallt yn y cartref. Mae anecs modern, sydd wedi'i addurno, ei ddodrefnu a'i bersonoli'n dda ar gyfer y bobl sy'n byw yno.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn awyddus i wella pob rhan o'r cartref, sy'n adeilad cofrestredig, gyda buddsoddiadau sylweddol a chynllun clir i gwblhau'r gwaith. Mae rhywfaint o'r gwaith eisoes wedi'i gwblhau, gan gynnwys lloriau newydd, gwaith paentio ac addurno yn ystafelloedd y bobl, y cynteddau a'r ystafelloedd ymolchi. Mae dodrefn newydd hefyd yn cael ei osod a'i adnewyddu fesul cam. Dywedodd y bobl, *"I am glad the house is being done up. I love the new bathroom".* Dywedodd y staff, *"The building is modernising, which is great"* a *"The home needs doing up, everyone is happy this is finally happening with our new RI"*

Mae'r bobl yn cael budd o ddigon o ofod yn yr awyr agored. Ceir ardal balmant â byrddau a chadeiriau er mwyn i'r bobl eu defnyddio mewn digwyddiadau a barbeciws a gynhelir yma. Mae cyfarpar ar gael i chwarae pêl-droed neu bêl-rwyd. Mae ardal mewn cyflwr da lle y caiff ieir, geifr ac alpacaod eu cadw. Dywedodd y staff, *"The grounds are beautiful and the residents have a lot of independence to be able to go for walks on their own if they want to. A lot wouldn't be able to do this if they lived in a town".*

The service provider identifies and mitigates risks to health and safety. Policies are reviewed and staff receive training to keep themselves and others safe. Fire risk assessments and checks are carried out with personal emergency evacuation plans completed for each person. The home has been awarded a Level 4 food hygiene rating and the RI and the manager told us the kitchen is due to be completely redone. The manager carries out an environmental walk around to identify and raise any issues so these can be addressed. Professionals commented *"The environment is safe and secure which offers a supportive and caring atmosphere for the service user".*

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae yna dîm o staff medrus a sefydlog sy'n cael ei gefnogi'n gyson ac yn cael hyfforddiant. Caiff gwiriadau recriwtio eu cynnal. Mae'r staff gofal wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu, ac maent yn cwblhau cynlluniau sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi, gan ddweud *"Support is always available for myself and other staff members"* ac *"We are always valued by our manager".* Mae sesiynau goruchwylio, arfarniadau a chyfarfodydd tîm yn rhoi cyfleoedd i'r staff drafod unrhyw faterion. Mae'r staff yn cwblhau hyfforddiant ag asesiaddau cymhwysedd i wirio eu dealltwriaeth o wahanol bynciau. Dywedodd y rheolwr wrthym fod yr holl hyfforddiant yn cael ei ddiweddaru, gan gynnwys rhywfaint o hyfforddiant gloywi. Mae hyfforddiant ychwanegol hefyd yn cael ei ychwanegu ar gyfer y rheolwr a'r staff.

Caiff y gwasanaeth ei arwain yn gyson a'i reoli'n dda. Mae'r rheolwr wedi gweithio yn y gwasanaeth ers sawl blwyddyn ac mae'n ymrwymedig iawn. Dywedodd y bobl fod y rheolwr yn *"always friendly".* Dywedodd y staff wrthym, *"The home runs smoothly and organized with all the company's guidelines and policies, all residents and their families are happy in this residential care home"*. Gwnaethant hefyd ddweud, *"all staff are happy working here to look after our residents, with good leadership of our manager too".* Mae'r rheolwr yn cael ei gefnogi'n dda gan ddirprwy a dywedodd wrthym, *"She's brilliant".* Dywedodd y gweithwyr proffesiynol, *"The manager and the deputy manager are open, honest and transparent. Couldn't ask for more".* Mae'r rheolwr yn edrych ymlaen at y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno gan yr Unigolyn Cyfrifol. Dywedodd wrthym ei bod yn *"100% supportive", "brilliant" ac "I am so happy, any problems she is there".* Bydd yr Unigolyn Cyfrifol yn cwblhau ei hymweliad bob tri mis â'r gwasanaeth a'r adolygiad o ansawdd y gofal.

Caiff diwylliant cadarnhaol ei hybu ac mae'r rheolwr wedi darparu sawl enghraifft o hyn. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Dywedodd y perthnasau wrthym fod y staff yn *"Show him respect and dignity not shown before. Staff adore him, treat him with dignity and respect for the first time in years, treated as a human being"*. Siaradodd y staff am *"Friendly environment. Wonderful staff and residents are amazingly lovable!".* Mae dathliadau a digwyddiadau yn cael eu trefnu, gan ddod â'r bobl ynghyd gyda'u ffrindiau a'u teuluoedd. Caiff staff o wahanol genhedloedd eu dathlu gyda bwydydd traddodiadol a wneir i eraill eu blasu a'u mwynhau gyda'i gilydd. Dywedodd y staff, *"This place provides a good atmosphere in care", "It's a happy and fun place to live"* ac *"Our care home is the best place to work in terms of providing care for the residents".*

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 21/11/2024